Gwybodaeth Gyffredinol

Grŵp Cynefin

Mwy na thai • More than housing

Croeso i Grŵp Cynefin

Ffurfiwyd Grŵp Cynefin ym mis Ebrill 2014 drwy uno Tai Clwyd a Thai Eryri. Roedd gan y ddwy gymdeithas dai fwy na 70 o flynyddoedd o brofiad o ddarparu tai fforddiadwy a datblygu cymunedau ar draws gogledd Cymru a gogledd Powys.

Rydym ni'n darparu mwy na 4,600 o gartrefi, yn cynnwys tai cymdeithasol i'w rhentu, tai rhent canolraddol a chartrefi arbenigol ar gyfer unigolion ag anghenion cymorth. Mae'r gwasanaethau cymunedol eraill yn y grŵp yn cynnwys asiantaethau Gofal a Thrwsio, Hwyluswyr Tai Gwledig a Gorwel, sy'n darparu cefnogaeth i bobl fregus. Mae'r Grŵp cyfan yn cyflogi mwy na 220 o bobl.

Mae'r cyfan rydym ni'n ei wneud yn canolbwyntio ar wneud gwahaniaeth, a mwy na thai.

Pwy sy'n llywio'r Gymdeithas?

Mae gwaith y Gymdeithas yn cael ei oruchwylio gan Fwrdd Rheoli sy'n gyfrifol am y polisïau, cyflogi'r staff a phenderfynu ar safonau'r Gymdeithas. Etholir aelodau'r Bwrdd Rheoli am gyfnod penodol gan aelodau'r Gymdeithas yn y Cyfarfod Blynyddol. Maent hefyd yn dirprwyo rhai dyletswyddau i'r Pwyllgor Cwsmeriaid a Chymunedau lle mae'r rhan fwyaf o'r aelodau yn denantiaid. I gael gwybod mwy, edrychwch ar Adran 11 o'r llawlyfr hwn - Cymryd Rhan.

Sut mae Grŵp Cynefin yn gweithredu?

Mae gan y Gymdeithas dair adran. Mae pob un yn gyfrifol am waith dydd i ddydd y Gymdeithas:

- **Gwasanaethau Cymunedol** – sy'n ymdrin â gosod tai, cynhwysedd ariannol, rheoli dyledion, rheoli stadau, llety â chefnogaeth a mentrau cymunedol.
- **Gwasanaethau Adfywio** – sy'n ymdrin â phrynu, datblygu, cynnal a chadw a gwella ein cartrefi.
- **Gwasanaethau Busnes** – sy'n darparu'r gwasanaethau cefnogol e.e. gweinyddiaeth, rheolaethau ariannol, gweinyddu cyflog, systemau gwybodaeth ac adnoddau dynol i'r adrannau eraill.

Mae'r adrannau hyn yn atebol i'r Prif Weithredwr, ac yn y pendraw, i'r Bwrdd Rheoli.

Darparwn wasanaethau lleol drwy ein pedair swyddfa a leolir ym Mhenygroes, Dinbych, Llangefni a'r Bala.